**CABINET**

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 30 Mehefin 2015 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Meirick Davies, Martyn Holland, Merfyn Parry, Arwel Roberts a David Simmons

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a’r Parth Cyhoeddus (RM); Penaethiaid Gwasanaeth: Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Addysg (KE), a Chynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB); Dirprwy Swyddog Monitro / Cyfreithiwr (LJ); Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (LG); Rheolwr Cynllunio a Datblygu Polisi (AL); Prif Gyfrifydd (RW); Rheolwr Cyllid a Sicrwydd (SG) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol gydag eitem 5 ar y rhaglen -

Y Cynghorydd Joan Butterfield – Llywodraethwr Ysgol Tir Morfa
Y Cynghorydd Meirick Davies - Llywodraethwr Ysgol Cefn Meiriadog ac Ysgol Trefnant
Y Cynghorydd Bobby Feeley - Llywodraethwr Ysgol Stryd y Rhos
Y Cynghorydd Martyn Holland - Llywodraethwr Ysgol Bro Famau
Y Cynghorydd Huw Jones – Llywodraethwr Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Carrog
Y Cynghorydd Merfyn Parry – Llywodraethwr Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor
Y Cynghorydd Arwel Roberts – Llywodraethwr Ysgol y Castell ac Ysgol Dewi Sant
Y Cynghorydd David Simmons – Llywodraethwr Ysgol Tir Morfa
Y Cynghorydd David Smith – Ŵyr yn Ysgol Pen Barras
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill - Llywodraethwr Ysgol Clawdd Offa

Datganodd y Cynghorwyr Bobby Feeley, Hugh Irving a Julian Thompson-Hill gysylltiad personol sy’n rhagfarnu ag eitem 11 ar y rhaglen yn ymwneud â Gofal Iechyd Cefndy. Gan fod yr aelodau hynny wedi'u henwebu gan y Cyngor i Fwrdd

Rheoli Gofal Iechyd Cefndy, cawsant eu heithrio o dan y Cod Ymddygiad a chael caniatâd i gymryd rhan yn y ddadl a phleidleisio ar yr eitem.

## 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2015.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 EITEMAU O BWYLLGORAU ARCHWILIO - PENDERFYNIADAU'R CABINET AR 2 MEHEFIN 2015 YN YMWNEUD AG YSGOL LLANFAIR DYFFRYN CLWYD, YSGOL PENTRECELYN AC YSGOL RHEWL

Cyflwynodd y Cynghorydd David Simmons, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad, yr adroddiad yn nodi casgliadau ac argymhellion y pwyllgor archwilio yn dilyn ystyriaeth o alw i mewn penderfyniadau'r Cabinet mewn perthynas ag Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd, Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Rhewl.

Yn dilyn ystyriaeth ofalus, fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio Perfformiad gynnal penderfyniadau'r Cabinet a gwneud nifer o argymhellion yn achos Ysgol Rhewl er mwyn lliniaru pryderon cymunedol a rhanddeiliaid. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn hapus i weithredu argymhellion y pwyllgor archwilio yn ystod y broses ymgynghori ac adrodd yn ôl arno. Fel aelod lleol ar gyfer Rhewl, gwahoddwyd y Cynghorydd Merfyn Parry i siarad ac fe gadarnhaodd nad oedd ganddo ddim arall i'w ychwanegu.

Fe wnaeth y Cabinet ystyried yr adroddiad a chytuno i gefnogi'r argymhellion. Ar gyfer eglurder, cytunodd y Cynghorydd Simmons addasu geiriad argymhelliad 3.2 i atgynhyrchu argymhellion y pwyllgor yn llawn yn hytrach na chyfeirio at yr argymhellion yn Atodiad 1b. Byddai hyn yn sicrhau y byddai'r argymhellion yn cael eu hatgynhyrchu'n llawn yng nghofnodion y Cabinet.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a) derbyn casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad mewn perthynas â'r ddau benderfyniad a wnaed yn destun yr hysbysiadau galw i mewn, ac*

*(b) o ran yr argymhellion sy'n ymwneud ag Ysgol Rhewl, i gymeradwyo'r gwaith ychwanegol yr argymhellwyd i'w wneud, fel yr amlinellir isod –*

- *bod swyddogion yn cael cyfarwyddyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ar ôl cyhoeddi'r hysbysiadau statudol, i ymgymryd â gwaith asesu a lliniaru effeithiau colli darpariaeth iaith Gymraeg ar y gymuned ac i sicrhau na fydd colli'r ysgol dwy ffrwd o anfantais i ddisgyblion yr ardal yn y dyfodol*

- *bod rhagor o waith yn cael ei wneud gyda disgyblion, rhieni, staff a rhanddeiliaid eraill o Ysgol Rhewl i ymdrin â'u pryderon sy'n ymwneud â chapasiti safle Glasdir, rheolaeth trafnidiaeth y safle ysgol newydd a phryderon diogelwch ffyrdd gyda phlant ysgol gynradd sy'n cerdded rhwng Rhewl a safle Glasdir, a*
- *bod canfyddiadau'r gwaith a amlinellir uchod yn cael eu hadrodd i'r Cabinet yn hydref 2015 wrth gyflwyno'r adroddiad gwrthwynebiadau mewn ymateb i gyhoeddi'r hysbysiad statudol.*

## 6 CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Jones yr adroddiad yn argymell cymeradwyo dyraniadau ariannol ar gyfer prosiectau Cynllun Tref ac Ardal yn dilyn gwerthusiad.

Roedd Cabinet wedi cymeradwyo'r argymhellion adolygu Cynllun Tref ac Ardal yn Ionawr 2015 a chytunwyd i wahodd Grwpiau Ardal Aelodau i enwebu prosiectau sy'n weddill am arian. Roedd y gwerthusiad o'r prosiectau hynny wedi'u gosod yn yr adroddiad yn erbyn meini prawf â'r bwriad i brofi budd, gwerth am arian a'r gallu i gyflenwi. Pennwyd dyddiadau adolygu ar gyfer pob prosiect a dyraniad wrth gefn ar gyfer Cynllun Tref Bodelwyddan. Cymeradwyodd y Cynghorydd Huw Jones waith Pencampwyr y Dref yn eu gwerthusiadau a chyflwynodd eu hargymhellion ariannu.

Croesawodd yr Arweinydd y buddsoddiad mewn cymunedau a buddion cymunedol sy'n deillio o'r Cynllun Tref ac Ardal. Fe adroddodd hefyd ynghylch bwriadau yn y dyfodol i gysoni Cynlluniau Tref ac Ardal yn fwy agos â'r strategaeth economaidd a thynnodd sylw at y pwysigrwydd o adrannau gwasanaeth yn helpu i gyflawni cynlluniau. Roedd y Cabinet yn fodlon bod prosesau clir wedi'u sefydlu gyda meini prawf asesu i hyrwyddo tegwch a thryloywder mewn dyraniadau ariannu ond gofynnwyd am sicrwydd pellach ynghylch cynnydd cyflym prosiectau ac elfennau arian cyfatebol. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus dawelu meddyliau'r aelodau ynghylch y prosesau monitro cadarn a oedd ar waith i oruchwylio datblygiad y prosiectau o fewn amserlenni priodol. Awgrymwyd ymhellach y gellid monitro'n rheolaidd drwy atodiad i adroddiad cyllid rheolaidd y Cabinet i ddangos cynnydd yn erbyn gwariant a gellid ailddyrannu arian os methodd prosiectau wneud cynnydd. Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau a argymhellwyd wedi nodi neu wedi diogelu arian cyfatebol a byddai cyflwyno dyddiadau adolygu yn galluogi bod modd mynd i'r afael â'r elfen arian cyfatebol. Awgrymodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad yn ôl i Bencampwyr y Dref neu Arweinwyr Grŵp i sicrhau bod cynghorwyr yn cael y diweddaraf gyda chynnydd prosiectau penodol. O ran ariannu Cynlluniau Tref ac Ardal yn y dyfodol, cyfeiriwyd at y Cynllun Datblygu Gwledig, ffermydd gwynt ac arian Ewropeaidd fel ffynonellau posibl i barhau'r buddsoddiad mewn trefi/pentrefi.

Wrth fynd heibio, tynnodd y Cynghorydd Eryl Williams sylw at y ffaith y byddai cynigion ad-drefnu llywodraeth leol yn effeithio ar argaeledd arian allanol. Er mwyn sicrhau nad oedd Sir Ddinbych ar eu colled yn hynny o beth, awgrymodd y dylid ceisio eglurhad ynghylch y goblygiadau ariannol uniongyrchol gan y Gweinidog ac Aelodau Cynulliad. Cytunodd y Dirprwy Swyddog Monitro / Cyfreithiwr ddrafftio

llythyr yn hynny o beth mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am eu gwaith caled ar amrywiol brosiectau a thynnwyd sylw at rôl bwysig Pencampwyr y Dref yn y broses. Rhoddodd yr Aelodau sylwadau hefyd ynghylch yr amrywiol brosiectau a gyflwynwyd i'w gwerthuso a mynegwyd siom mewn achosion lle nad oeddent wedi cael cefnogaeth heb unrhyw ddull o apelio ar waith. Dywedodd y Cynghorydd Huw Jones y gall prosiectau nad ydynt ar hyn o bryd wedi'u hargymell ar gyfer cyllid gael cyfle arall i wneud cais am arian a ail-ddyrannwyd os bydd prosiectau eraill yn methu symud ymlaen. Roedd gwaith ar y gweill i edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio a ffynonellau arian allanol posibl i alluogi Cynlluniau Tref ac Ardal i barhau yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r dyraniadau arian a argymhellir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 7 CASGLIADAU AC ARGYMHELLION GAN Y GRŴP TASG A GORFFEN TAI FFORDDIADWY

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith adroddiad i geisio cymeradwyaeth o gasgliadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen Tai Fforddiadwy. Sefydlwyd y grŵp i adolygu dull y Cyngor i ddarparu tai fforddiadwy a byddai ei argymhellion yn llywio'r Strategaeth Tai ac yn cael eu hadlewyrchu yn strategaethau, cynlluniau a chanllawiau'r Cyngor fel y bo'n briodol.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol -

- rhoddwyd sicrwydd y byddai rhagor o fanylion ac amserlenni i ddatblygu argymhellion yn cael eu cymryd ymlaen trwy'r Strategaeth Tai
- cafwyd rhywfaint o rwystredigaeth, oherwydd deddfwriaeth genedlaethol, ni fyddai'n bosibl symud rhai argymhellion ymlaen mor sydyn ag y byddai Aelodau'n ei hoffi
- roedd llawer o drafodaeth yn canolbwyntio ar y broblem o 'fancio tir' lle methodd datblygwyr a thirfeddianwyr fwrw ymlaen â datblygiad yn dilyn caniatâd cynllunio ac yn aros i werthoedd tir gynyddu. Roedd gan y Cyngor ychydig o reolaeth dros yr amserlen ar gyfer dechrau datblygiadau ond ni allent gymryd unrhyw gamau mewn achosion lle'r oedd datblygiad wedi dechrau yn unol â chaniatâd cynllunio ond heb symud ymlaen – roedd yr agwedd hon yn cael ei rheoli gan ddeddfwriaeth genedlaethol. Cytunwyd bod Llywodraeth Cymru yn cael tystiolaeth o'r broblem yn Sir Ddinbych ac yn cael eu lobïo i newid y ddeddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol cwblhau datblygiad o fewn cyfnod penodedig. Cytunodd swyddogion i ymdrin â'r mater y tu allan i'r cyfarfod a chodi'r posibilrwydd o ddull ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill a chynnig awgrymiadau amgen i'w hystyried
- rhoddwyd esboniad o ran cyfranogiad yr aelodau ar y Grŵp Strategaeth Tai â'r aelodau Cabinet hynny sydd ag elfennau o dai yn eu portffolios yn cymryd rhan yn ystod y camau cynnar i ddarparu persbectif aelod cyn y cyflwynwyd y strategaeth drwy sianeli ffurfiol - Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Medi a'r Cyngor llawn ym mis Hydref

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Joan Butterfield at faterion digartrefedd ac anawsterau dod o hyd i lety addas, gan gynghori ynghylch achos presennol er mwyn egluro'r pwynt, a'r angen i roi sylw i'r mater fel mater o frys – cadarnhaodd swyddogion bod digartrefedd wedi'i nodi fel blaenoriaeth o fewn y Strategaeth Tai ac y byddai Aelodau'n cael cyfle i archwilio'r strategaeth mewn Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Medi. O ran yr achos presennol y cyfeiriwyd ato, cytunwyd edrych ymhellach ar y mater gan swyddogion y tu allan i'r cyfarfod
- codwyd pryderon ynghylch safleoedd blêr y Cyngor a'r angen am ddull mwy trwyadl i fynd i'r afael â nhw.

Talodd y Cabinet deyrnged i'r gwaith a wnaed gan y Grŵp a'i swyddogion cefnogi i gynhyrchu argymhellion clir i sicrhau manteision mewn materion sy'n ymwneud â thai fforddiadwy a nodwyd bod rhai argymhellion eisoes yn cael eu gweithredu. Adroddodd y Cynghorydd David Smith ar y dull dynamig a gynhaliwyd, yn fwyaf nodedig y Canllawiau Cynllunio Atodol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cynllunio sy'n caniatáu addasu adeiladau gwledig segur ar gyfer tai ar y farchnad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r casgliadau a'r argymhellion y cytunwyd arnynt gan y Grŵp Tasg a Gorffen Tai Fforddiadwy (sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) i'w symud ymlaen drwy'r Strategaeth Tai a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig.*

**8 DIRPRWYO PWERAU DAN DDEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDAU A PHLISMONA 2014 A DIWYGIADAU SY'N OFYNNOL I'R CYNLLUN DIRPRWYO SWYDDOG O RAN PWERAU A DDIRPRWYWYD YN FLAENOROL I'R PENNAETH TAI**

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau newydd ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gynhwysir o fewn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014, a cheisio dirprwyo pwerau i Benaethiaid Gwasanaeth perthnasol i sicrhau bod y pwerau newydd yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn adlewyrchu newidiadau eraill mewn deddfwriaeth a chyfrifoldebau'n dilyn yr ailstrwythuro diweddar.

Mae'r darpariaethau newydd yn symleiddio offer ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda chwe phŵer newydd yn lle'r 19 presennol; roedd yna ddau bŵer newydd hefyd. Roedd y cyfrifoldeb ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei rannu rhwng nifer o asiantaethau, ac roedd y ddeddfwriaeth newydd yn annog yr asiantaethau hynny i weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rhoddwyd enghreifftiau lle gallai'r Cyngor weithio ar y cyd gyda'r Heddlu ar faterion sy'n ymwneud â Rhybuddion Gwarchod y Gymuned a Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pwerau ar gyfer delio ag yfed yn y stryd yn ardal y Rhyl, dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro/Cyfreithiwr y gallai'r cyngor arfer ei bwerau yn hynny o beth, yn amodol ar adnoddau, ond byddai angen dibynnu ar yr heddlu am gymorth. Fe gyfeiriodd hefyd at un o'r pwerau newydd – Sbardun Cymunedol – a oedd yn rhoi mwy o bwerau i ddioddefwyr ofyn am adolygiad mewn achosion lle teimlent nad oedd asiantaethau lleol wedi methu

ymateb yn effeithiol. Cynlluniwyd y diwygiadau i roi hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol ddelio ag unrhyw sefyllfa.

***PENDERFYNWYD*** *bod -*

*(a)* *y Swyddogion a restrir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael awdurdod dirprwyedig i arfer y pwerau newydd a'r swyddogaethau ychwanegol a roddir dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014, er mwyn galluogi'r Cyngor a'i bartneriaid i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd priodol, cyson a chymesur ac o fewn cyfyngiadau adnoddau;*

*(b)* *lefel y dirwyon ar gyfer Rhybuddion Cosb Benodedig a gyhoeddir fel cosb am dorri Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned a Hysbysiadau Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn cael ei bennu ar £100, sef yr uchafswm dan y ddeddfwriaeth;*

*(c)* *y Swyddog Monitro yn diwygio'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion i adlewyrchu'r pwerau newydd a diwygiedig hyn mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol,*

*(d)* *y Swyddog Monitro hefyd yn diwygio'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion i adlewyrchu'r ffaith bod y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn dilyn yr ailstrwythuro, wedi derbyn y cyfrifoldebau mewn perthynas â swyddogaethau tai'r Cyngor ac i 'dacluso'r' ddeddfwriaeth a nodir yn y Cynllun oherwydd diddymiadau a diwygiadau i ddeddfwriaeth sydd o fewn cylch gwaith gwasanaeth gwarchod y cyhoedd.*

## 9 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 4 – 2014/15

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar gyflawni Cynllun Corfforaethol 2012 – 17 fel ag y mae ar ddiwedd chwarter 4 o 2014/15.

Roedd yr adroddiad yn trafod tair elfen –

- Cynllun Corfforaethol 2012-17 - roedd nifer o ddangosyddion 'Coch' a oedd yn golygu eu bod yn 'Flaenoriaeth ar gyfer gwella' neu lle'r oedd problem â'r data yr oedd angen ei godi - roedd esboniad tu ôl i statws 'Coch' pob dangosydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ac ymhelaethwyd arnynt ymhellach yn y cyfarfod ac mewn ymateb i gwestiynau
- Cofrestr Prosiect Corfforaethol - nid oedd unrhyw brosiectau â statws blaenoriaeth ar gyfer gwella 'Coch', darparwyd manylion tri phrosiect ar lefel dderbyniol 'Oren' lle'r oedd materion penodol ond roeddent yn ôl y disgwyl
- Cytundeb canlyniadau – Roedd y Cyngor wedi cyflawni'r nifer angenrheidiol o bwyntiau ar gyfer taliad llawn o'r Grant Cytundeb Canlyniadau ar gyfer 2014 – 15, fodd bynnag, cyfeiriwyd at ddau brif faes lle methwyd targedau.

Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r Cabinet wedi mynychu hyfforddiant ar y System Rheoli Perfformiad Verto ac felly gallent gael gafael ar wybodaeth mewn amser go iawn. Byddai hyfforddiant hefyd yn cael ei gyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol -

- cydnabuwyd y gallai'r dangosydd gwyrdd ar gyfer 'canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol' fod yn gamarweiniol ond mewn gwirionedd roedd yn ganlyniad cadarnhaol – yn anffodus, ni fyddai'n bosibl newid y geiriad ar gyfer y dangosydd gan ei fod yn cael ei bennu'n genedlaethol
- roedd 'y canran o dai mewn amlfeddiannaeth a oedd â thrwydded lawn' wedi methu'r targed cytundeb canlyniad o 8% - eglurwyd bod newidiadau diweddar i'r gyfundrefn drwyddedu wedi arwain at gynnydd yn nifer y Tai Amlfeddiannaeth a oedd angen trwyddedu. Ar gais y Cynghorydd Joan Butterfield, cytunodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i adrodd ar y newidiadau diweddar a'r sefyllfa ddiweddaraf i Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl
- cwestiynwyd y ddau ddangosydd coch o'r Arolwg Preswylwyr, lle nad oedd y preswylwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r Cyngor, oherwydd fe ymddangosai'n groes i adborth a chyfarfodydd yn cynnwys aelodau – dywedodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol bod y data o arolwg 2013 ac y byddai canlyniadau o arolwg 2015 sy'n adlewyrchu'r farn ddiweddaraf ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn
- myfyriodd yr aelodau ynghylch y sesiwn hyfforddi ddiweddar ynghylch Rhianta Corfforaethol a oedd yn boblogaidd iawn ac yn cynnwys trosolwg o blant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych, llwybrau gofal ac anghenion cefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal - roedd aelodau'n teimlo ei bod yn bwysig rhoi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo profiadau cadarnhaol a gwaith drwy'r Timau Cyfathrebu a hefyd fe drafodwyd eu cyfrifoldebau eu hunain yn hynny o beth
- eglurwyd bod y Cyngor wedi diogelu eu helfen ariannu o gyllidebau ysgolion ond nid oedd ganddynt reolaeth dros doriadau i elfennau eraill o arian ysgolion a ddarperir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru – trafodwyd rheoli a lliniaru cyllidebau ysgolion gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion hefyd.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn darparu tystiolaeth o'r prosesau cadarn a heriol sydd ar waith gan y Cyngor. Tynnodd sylw at gyflawniad sylweddol y Cyngor i gynnal lefel gyson uchel o berfformiad er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd a llongyfarchodd bawb a oedd ynghlwm wrth hyn. Croesawodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill sylwadau'r Aelodau ar yr adroddiad a gofynnodd bod Cabinet yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 4 2014/15.*

Ar y pwynt hwn (11.55 am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth

gyllidebol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net ar y gyllideb refeniw o £0.534m ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- cytunwyd ar arbedion o £7.3m fel rhan o'r gyllideb ac ar y cam hwn roedd 72% eisoes wedi'i gyflawni a byddai cynnydd ar y 28% sy'n weddill yn cael ei fonitro'n agos gyda llawer o hyder y byddai'r mwyafrif yn cael ei gyflawni
- amlygwyd yr amrywiadau allweddol eraill oddi wrth gyllidebau neu dargedau arbedion meysydd gwasanaeth unigol
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Trafodwyd y materion canlynol yn fanylach –

- o ran rheoli trysorlys, rhoddwyd esboniad ar strategaethau buddsoddi'r Cyngor gan ystyried ffactorau diogelwch, hylifedd a'r cynnyrch
- mynegwyd rhywfaint o rwystredigaeth ynghylch cyfranogiad ac ymateb rhai o'r Aelodau i benderfyniadau ynghylch toriadau yn y gyllideb ac a ddylid amddiffyn y penderfyniadau hynny'n fwy
- fe wnaeth llawer o drafodaeth ganolbwyntio ar rôl Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn archwilio ac adroddodd y Prif Weithredwr ynghylch y cyfarfod cyntaf y cytunwyd ar ei gylch gorchwyl - eglurodd mai eu rôl oedd archwilio effaith rhai o'r toriadau ar y cyhoedd. Roedd yn bwysig er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer gweithredu'r toriadau i sicrhau asesiad ar sail tystiolaeth a chanlyniadau mesuradwy. Anogwyd aelodau i gyfeirio toriadau penodol yr hoffent eu harchwilio i'r Grŵp. Roedd y Cabinet yn awyddus i ganlyniadau'r grŵp gael eu bwydo'n ôl i'r aelodau a chadarnhawyd y byddai'r canfyddiadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio perthnasol, Aelod Arweiniol neu'r Cabinet fel y bo'n briodol. Gellid dysgu gwersi o fesur effaith a llywio gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Roedd yr Arweinydd yn awyddus i Aelodau Arweiniol gadw ochr yn ochr ag unrhyw waith sy'n ymwneud â'u portffolio a chadarnhawyd bod cylch gorchwyl y Grŵp yn caniatáu galw ar Aelodau Arweiniol pan ystyriwyd materion o fewn eu portffolios
- rhoddwyd sicrwydd bod y Cyngor yn well eu byd yn ariannol ar ôl gadael System Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai a byddai unrhyw arian dros ben o'r Cynllun Stoc Tai yn gyfystyr ag arian ychwanegol i'w fuddsoddi mewn gwella stoc tai presennol neu adeiladu o'r newydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni.*

## 11 ALLDRO REFENIW TERFYNOL 2014/15

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad ar y sefyllfa alldro refeniw terfynol am 2014/15 a'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau.

Tywyswyd yr aelodau drwy fanylion yr adroddiad a'r atodiadau. Yn gryno dangosodd y sefyllfa alldro gyffredinol danwariant yn erbyn y gyllideb gymeradwy a

oedd yn cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor, ynghyd â gwell incwm o'r dreth gyngor nag y rhagwelwyd. O ganlyniad bu'n bosibl gwneud argymhellion i wasanaethau ddwyn balansau ymlaen a gwneud trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn penodol a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â phwysau ariannol yn y dyfodol a bodloni ymrwymiadau arian parod sydd eu hangen i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Y sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth oedd tanwariant o £1.075m a oedd yn 0.57% o gyllideb refeniw net.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol -

- esboniwyd y rhesymeg y tu ôl i greu cronfeydd wrth gefn penodol, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, er mwyn cynnwys uchafbwyntiau ac isafbwyntiau yn y galw ar becynnau gofal a lleoliadau. O ran Cefnogi Pobl, crëwyd y gronfa wrth gefn hon er mwyn lliniaru'r bygythiad o ddileu Grant Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru – rhoddwyd sicrwydd bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- dyrannwyd grantiau a dderbynnir gan y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i ddechrau i Grantiau Refeniw Heb eu Cymhwyso cyn cael eu prosesu a'u hailgyfeirio i wasanaethau unigol – roedd hyblygrwydd yn ystod y flwyddyn ac roedd rhai grantiau wedi'u haildyrannu'n gynharach yn y flwyddyn
- nodwyd bod cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi'u hystyried fel rhan o'r gweithdai cyllideb a'u bod yn cael eu hailasesu'n rheolaidd a'u hadolygu'n flynyddol. Er mwyn gwneud cymariaethau â blynyddoedd blaenorol, roedd y Cynghorydd Eryl Williams wedi gofyn am adroddiad mwy manwl a oedd yn dangos ffigurau hanesyddol a rhagamcanion y dyfodol gyda golwg ar nodi tueddiadau
- byddai gwaith yn cael ei wneud yn fuan i adolygu polisi cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn dilyn y gofyniad bod holl awdurdodau lleol Cymru yn cyhoeddi manylion am eu triniaeth o gronfeydd wrth gefn mewn modd haws i'w ddeall – awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru hefyd fod yn fwy agored a thryloyw ynghylch eu cronfeydd wrth gefn ac y codir y mater gyda nhw pan fydd y cyfle'n codi
- o ran ariannu ar gyfer y Cynllun Corfforaethol a chadarnhawyd hynny, yn seiliedig ar dybiaethau cyfredol, roedd yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy – byddai unrhyw newidiadau yn y tybiaethau hynny yn gofyn am adolygiad pellach ac fe'i cydnabuwyd nad oedd y Cyngor mewn rheolaeth gyffredinol dros yr holl elfennau o fewn y cynllun
- o ran balansau'r ysgolion mewn diffyg, rhoddwyd sicrwydd bod pob ysgol â chynllun adennill ariannol ar waith.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa alldro refeniw terfynol ar gyfer 2014/15 ac yn cymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1 a 2 ynghlwm wrth yr adroddiad.*

## 12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20pm.